




Cyngor Bro Morgannwg
Datganiad o Egwyddorion
Deddf Hapchwaræ 2005
2019 – 2022

Cynnwys

Cynnwys	1
Map o Fro Morgannwg	2
Rhan A	3
1. Yr amcanion trwyddedu	3
2. Cyflwyniad	3 – 4
3. Awdurdodau Cyfrifol	4
4. Cyfnewid Gwybodaeth	4
5. Unigolion Cyfrannog	5
6. Cydymffurfio a gorfodi	6 – 7
7. Swyddogaethau awdurdodau trwyddedu	7
Rhan B – Trwyddedau Safleoedd	7
1. Egwyddorion Cyffredinol	7 – 11
2. Canolfannau Hapchwarae i Oedolion	12
3. Canolfannau Adloniant Teuluoedd (Trwyddedig)	12 – 13
4. Safleoedd Bingo	13
5. Traciau	13 – 14
6. Safleoedd Betio	14
7. Casinos	14
8. Ffeiriau Teithiol	14 – 15
9. Datganiadau Dros Dro	15
10. Adolygiadau	15 – 16
Rhan C - Trwyddedau / Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol	16
1. Trwyddedau ar gyfer peiriannau hapchwarae mewn Canolfannau Adloniant Teuluol didrwydded	16 – 17
2. Trwyddedau ar gyfer peiriannau ar safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer gwerthu alcohol / Hawlio peiriannau fel mater o arfer	17
3. Trwyddedau ar gyfer hapchwarae am wobr	17 – 18
4. Trwyddedau hapchwarae ar gyfer clybiau a pheiriannau mewn clybiau	18
5. Hysbysiadau Defnydd dros dro / Achlysurol	18 – 19
6. Loteriau Cymdeithasau Bach	19
7. Cofrestr	19



MAP O FRO MORGANNWG

© Crown copyright. All rights reserved. The Vale of Glamorgan Council Licence No. 100023424 2006.
 © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Bro Morgannwg rhif trwydded 100023424 2006.

RHAN A

1. Yr Amcanion Trwyddedu

Wrth gyflawni'r rhan fwyaf o'u swyddogaethau o dan Ddeddf Hapchwarae 2005, bydd yn rhaid i awdurdodau trwyddedu gyfeirio at yr amcanion trwyddedu sydd wedi'u hegluro yn adran 1 o'r ddeddf honno. Yr amcanion trwyddedu hyn yw:

- Sicrhau na fydd hapchwarae'n achosi troseddu nac anhrefn, nac yn cael ei gysylltu â'r pethau hynny na'i ddefnyddio i helpu troseddwy;
- Sicrhau bod hapchwarae'n broses deg ac agored;
- Gwarchod plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio a'u hecsbloetio o ganlyniad i hapchwarae.

Nid yw'r Comisiwn Hapchwarae'n cynnig diffinio 'pobl fregus'. Serch hynny, i ddibenion rheoli y mae'n cymryd bod y grŵp hwnnw'n cynnwys: rhai sy'n hapchwarae'n amlach nag y byddai'n dda ganddynt; rhai sy'n mentro mwy nag sydd ganddynt wrth hapchwarae; a rhai sydd mewn perygl o ddod i benderfyniadau annoeth neu anghytwys ynglŷn â hapchwarae am fod nam meddylol arnynt neu oherwydd cyffuriau neu alcohol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn felly'n ystyried yr amcan trwyddedu yma fesul achos.

Wrth ddod i benderfyniadau ynglŷn â thrwyddedau safle a hysbysiadau defnydd dros dro, yn ôl Adran 153, gŵyr yr Awdurdod Trwyddedu hwn na ddylai ganiatáu trwyddedau oni bai ei fod yn ffyddiog bod yr hapchwarae dan sylw'n:

- cydymffurfio â chôd ymarfer perthnasol y Comisiwn Hapchwarae;
- weddol gydnaws â'r amcanion trwyddedu;
- yn cydymffurfio â'r datganiad o bolisi trwyddedu a wnaeth yr awdurdod.

2. Cyflwyniad

Cyngor Bro Morgannwg yw Awdurdod Unedol mwyaf deheuol Cymru. Mae 4 Cyngor Tref ac 22 o Gynghorau Cymuned yn yr ardal. Mae'n ymestyn dros 33,097 o hectarau o dir (331 o filltiroedd sgwâr) sy'n cynnwys 53 o gilomedrau o arfordir. 128,900 o bobl sy'n byw yn ardal y Cyngor. Y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr, Dinas Powys, Y Bont-faen a'r Rhws yw'r prif aneddiadau. Y Barri, sef tref fwyaf yr ardal sy'n gartref i 53,000 o bobl, yw canolfan weinyddol y Fro ac y mae hefyd yn dref wyliau lan môr ac yn borthladd. Mae Maes Awyr Caerdydd yn 4 milltir i'r dwyrain o'r Barri. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi ar y map ar ddechrau'r Datganiad hwn.

Ni fydd y datganiad hwn o egwyddorion yn disodli hawl yr unigolyn i wneud cais am drwydded, gwneud sylwadau ar gais na gofyn am adolygu trwydded. Bydd pob achos yn hytrach yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun yn unol â gofynion Deddf Hapchwarae 2005.

Bu Cyngor Bro Morgannwg yn ymgynghori â'r bobl a'r sefydliadau canlynol rhwng:

- **Pawb a chanddo drwydded/hawlen ar hyn o bryd;**
- **Pob awdurdod cyfrifol;**
- **Cynghorau Tref;**
- **Aelodau Etholedig;**
- **Cynrychiolwyr masnach;**
- **Sefydliadau Problemau Hapchwarae.**

3. Awdurdodau Cyfrifol

O dan y rheoliadau, y mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ddatgan yr egwyddorion y mae'n bwriadu eu dilyn wrth ddefnyddio ei bwerau o dan Adran 157(h) o'r Ddeddf i enwi (ar glawr) corff sy'n gymwys i gynghori'r awdurdod ynglŷn â chadw plant rhag eu niweidio. Yn ôl yr egwyddorion;

- a) dylai'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cyfateb o ran maint i ardal yr awdurdod trwyddedu;
- b) dylai'r corff fod yn atebol i unigolion a etholwyd drwy broses ddemocrataidd yn hytrach na grŵp o bobl a allai elwa ar y sefyllfa.

Yn unol â'r rheoliadau, y mae'r Cyngor wedi enwi Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Bro Morgannwg i'r diben hwnnw. Cewch fanylion cyswllt pob Awdurdod Cyfrifol o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 ar wefan y Cyngor (www.valeofglamorgan.gov.uk) neu drwy wneud cais i'r Adran Drwyddedu.

4. Cyfnewid Gwybodaeth

Wrth gyfnewid gwybodaeth, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn gweithredu'n ôl darpariaethau Deddf Hapchwarae 2005 sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd Deddf Diogelu Data 1998 yn cael ei thorri. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried unrhyw ganllawiau ar y mater hwn a gyhoeddodd y Comisiwn Hapchwarae ac unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau a ddarperir yn Neddf Hapchwarae 2005.

5. Unigolion Cyfrannog

Caiff unigolion cyfrannog wneud sylwadau ar geisiadau am drwyddedau neu ofyn i drwydded gyfredol gael ei hadolygu. Dyma'r diffiniad o unigolion felly a welir yn Neddf Hapchwarae 2005:

"I ddibenion y Rhan hon, bydd ymgeisydd am drwydded ar gyfer neu ar ran safle penodol yn cael ei ystyried yn 'unigolyn cyfrannog' os yw'r awdurdod trwyddedu sydd i ddarparu'r drwydded neu wedi derbyn y cais yn cytuno bod yr ymgeisydd hwnnw -

- a) yn byw'n ddigon agos i'r safle dan sylw i allu teimlo effaith y gweithgareddau sydd i gael eu hawdurdodi;
- b) yn berchen ar fusnes a allai deimlo effaith y gweithgareddau sydd i gael eu hawdurdodi;
- c) yn cynrychioli rhywun sy'n cyfateb i ddisgrifiad (a) neu (b)".

Yn ôl y rheoliadau, y mae'n rhaid i awdurdod trwyddedu ddatgan yr egwyddorion y mae'n bwriadu eu dilyn wrth ddefnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 i benderfynu p'un ai a fo unigolyn yn 'unigolyn cyfrannog' ai peidio. Dyma'r egwyddorion:

Ystyrir pob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun. Ni fydd yr Awdurdod yn dilyn rheol haearnidd wrth ddod i benderfyniadau.

Bydd hefyd yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae sy'n argymhell diffinio 'cysylltiadau busnes' mor eang ag sy'n bosibl a chynnwys cysylltiad â phartneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd a meddygfeydd.

Gall pobl fel cynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a gafodd eu hethol drwy broses ddemocrataidd, hefyd fod yn 'unigolion cyfrannog'. Ni fydd yn rhaid iddynt dystio'n benodol i rywun 'cyfrannog' ofyn iddynt ei gynrychioli, cyn belled â'u bod yn cynrychioli ward sy'n debyg o deimlo effaith y trwyddedu. Yn yr un modd, bydd unrhyw gyngor tref neu gymuned sy'n debyg o deimlo effaith y trwyddedu hefyd yn 'gyfrannog'.

O dan bob amgylchiad arall, bydd yn arferol i'r awdurdod hwn ofyn i unigolyn/gorff (e.e. eiriolwr / perthynas) dystio ar glawr ei fod un ai'n 'cynrychioli' rhywun sy'n byw'n ddigon agos i'r safle dan sylw i allu teimlo effaith y gweithgareddau awdurdodedig, ynteu'n berchen ar fusnes a allai elwa o'r gweithgareddau. Bydd llythyr oddi wrth unigolyn felly sy'n dangos ei fod wedi gofyn am gael ei gynrychioli'n ddigon o dystiolaeth.

Dylai unigolion sy'n bwriadu gofyn i gynghorwyr wneud sylwadau ar eu rhan ofalu nad yw'r cynghorwyr hynny yn rhan o'r Pwyllgor Trwyddedu sy'n trafod eu cais am drwydded. Os oes gennych unrhyw amheuan, dylech gysylltu â'r Adran Drwyddedu drwy anfon neges i Licensing@valeofglamorgan.gov.uk.

6. Cydymffurfio a Gorfodi

Yn ôl Deddf Hapchwarae 2005, y mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu ddatgan yr egwyddorion y byddant yn eu dilyn wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ran 15 o'r Ddeddf sy'n ymwneud ag archwilio safleoedd. Mae'n rhaid iddynt hefyd ddatgan yr egwyddorion y byddant yn eu dilyn wrth ddefnyddio pwerau o dan isadran 346 o'r Ddeddf i ddwyn achosion cyfreithiol yn erbyn unigolion sy'n cyflawni troseddau penodol.

Yn unol â'i egwyddorion, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn: yn dilyn Canllawiau Trwyddedu'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu ac yn ymdrechu i fod:

- yn gytbwys: ni ddylai rheolyddion ymyrryd oni bai fod angen gwneud hynny: dylent ddatrys problemau mewn ffordd sy'n addas wrth ystyried y perygl, a dylent nodi eu costau a'u cadw mor isel ag sy'n bosibl.
- yn atebol: dylai rheolyddion allu cyfiawnhau eu penderfyniadau a chael eu harchwilio gan y cyhoedd.
- yn gyson: dylai rheolau a safonau gael eu cyd-drefnu a'u gweithredu'n deg.
- yn agored dylai rheolyddion fod yn agored a sicrhau bod rheolau'n syml ac yn ac yn hawdd eu defnyddio.
- yn bwrpasol: dylai rheolyddion ganolbwyntio'n llwyr ar y broblem dan sylw a cheisio arbed sgîl-effeithiau.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn wedi mabwysiadu a gweithredu rhaglen archwilio ar sail risg sydd wedi'i seilio ar:

- yr amcanion trwyddedu;
- godau ymarfer perthnasol;
- Ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, yn enwedig Rhan 36;
- yr egwyddorion sy'n cael eu hegluro yn y datganiad hwn o bolisi trwyddedu.

Sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â thrwyddedau safleoedd a phob caniatâd arall y mae'r Ddeddf yn ei awdurdodi, yw prif rôl orfodi a chydymffurfio'r Awdurdod Trwyddedu hwn o dan Ddeddf Hapchwarae 2005.

Y Comisiwn Hapchwarae yw'r corff gorfodi ar gyfer trwyddedau gweithredu a thrwyddedau personol. Mae hefyd yn bwysig sylwi mai'r Comisiwn Hapchwarae'n hytrach na'r Awdurdod Trwyddedu a fydd yn ymdrin ag unrhyw bryderon ynglŷn â chynhyrchu, cyflenwi neu drwsio peiriannau hapchwarae.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn hefyd yn ymwybodol o waith diweddaraf Gweithrediaeth Gwell Rheoleiddio'r llywodraeth ynglŷn â swyddogaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.

7. Swyddogaethau awdurdodau trwyddedu

O dan y Ddeddf, y mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu:

- fod yn gyfrifol am drwyddedu manau lle y mae cyfleusterau hapchwarae i gael eu cynnig, drwy ddarparu Trwyddedau Safleoedd ar eu cyfer;
- ddarparu Datganiadau Dros Dro;
- reoli clybiau aelodau a sefydliadau glowyr sydd am gynnig mathau penodol o weithgareddau hapchwarae, drwy ddarparu Trwyddedau Hapchwarae Clybiau a Thrwyddedau Peiriannau Clybiau ar eu cyfer;
- ddarparu Trwyddedau Peiriannau Clybiau ar gyfer Clybiau Masnachol;
- ddarparu trwyddedau sy'n caniatáu defnyddio peiriannau penodol i chwarae am arian bach mewn canolfannau adloniant teuluol didrwydded;
- dderbyn hysbysiadau oddi wrth safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer gwerthu alcohol (o dan Ddeddf Drwyddedu 2003) sy'n cadarnhau nad oes ganddynt fwy na dau beiriant hapchwarae.
- ddarparu Trwyddedau Peiriannau Hapchwarae Safleoedd Trwyddedig ar gyfer safleoedd a drwyddedwyd o dan Ddeddf Drwyddedu 2003 ar gyfer gwerthu/darparu alcohol i'w yfed yn y fan a'r lle, sy'n cynnig mwy na dau beiriant;
- gofrestru loteriau cymdeithasau bach a ddosbarthwyd yn is na'r trothwy a ragnodwyd;
- ddarparu Trwyddedau Hapchwarae am Wobrau;
- dderbyn a chadarnhau Hysbysiadau Defnydd Dros Dro;
- dderbyn Hysbysiadau 'Defnyddio'n Achlysurol';
- roi gwybodaeth i'r Comisiwn Hapchwarae am y trwyddedau a ddarparwyd (gweler yr adran uchod am gyfnewid gwybodaeth);
- gadw cofrestrau o'r trwyddedau a'r caniatâd a ddarparwyd fel rhan o'r swyddogaethau hyn.

Sylwch nad oes hawl i awdurdodau trwyddedu drwyddedu hapchwarae o bell ar unrhyw gyfrif. Maes sy'n cael ei reoli'n hytrach gan y Comisiwn Hapchwarae drwy drwyddedau gweithredu yw hwnnw.

RHAN B TRWYDDEDAU SAFLEOEDD: YSTYRIED CEISIADAU

1. Egwyddorion Cyffredinol

(i) Wrth ddod i benderfyniadau ynglŷn â thrwyddedau safleoedd, y mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn deall na ddylai ganiatáu i unrhyw safle gael ei ddefnyddio ar gyfer hapchwarae oni bai ei fod, yn ôl pob golwg:

- yn cydymffurfio â'r côd ymarfer perthnasol a / neu'r canllawiau perthnasol a gyhoeddodd y Comisiwn Hapchwarae;
- yn weddol gydnaws â'r amodau trwyddedu;
- yn cydymffurfio â datganiad o egwyddorion trwyddedu'r awdurdod.

Penderfynir ar bob achos yn ôl ei deilyngdod ei hun, a bydd y cyfan yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o hapchwarae a gynigwyd ar gyfer y safle dan sylw. Nid oes modd ystyried galw wrth benderfynu ar leoliad safle, ond gellir ystyried materion sy'n ymwneud â'r amodau trwyddedu.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n deall nad yw ystyriaethau eraill megis gwrthwynebu ar sail foisol er enghraifft, yn rhesymau dilys dros wrthod cais am safle trwyddedig. Wrth wrthod cais, dylai'r Awdurdod Trwyddedu seilio ei benderfyniad yn llwyr yn hytrach ar resymau sy'n dangos nad yw'r amodau trwyddedu'n cael neu'n debyg o gael eu cyflawni. Nid yw'r gwrthwynebiadau eraill hynny'n ymwneud â'r amodau trwyddedu.

(ii) Diffinio 'safle' - 'Unrhyw le' yw 'safle' yn ôl y Ddeddf. O dan Adran 152, felly, ni fydd trwydded safle'n ddilys ar gyfer mwy nag un lle. Serch hynny, caiff un adeilad hawlio mwy nag un drwydded safle, os yw'r adeilad hwnnw wedi'i rannu, a'i bod yn rhesymol ystyried ei wahanol rannau'n safleoedd ar wahân.

Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn rhoi sylw penodol i Ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae sy'n pwysleisio'r angen am ystyried cais yn ofalus iawn pan ofynnir am fwy nag un drwydded ar gyfer adeilad, neu am drwydded ar gyfer rhan o adeilad a neilltuwyd ar gyfer rhyw weithgaredd arall nad yw'n ymwneud â hapchwarae. Dylid cofio'n arbennig:

- fod y trydydd amcan trwyddedu'n darparu ar gyfer gwarchod plant rhag eu niweidio o ganlyniad i hapchwarae. Er mwyn gweithredu hyn, y mae'n rhaid nid yn unig eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn hapchwarae, ond hefyd eu cadw rhag dod yn agos ato. Gan hynny, dylai safleoedd lle gwaherddir plant rhag cymryd rhan mewn hapchwarae gael eu trefnu fel na fo unrhyw berygl i blentyn gael ei wahodd i ymuno â gêm, ddod i'r safle ar ddamwain neu gael cyfle i wyllo gêm yn agos.
- fod angen sicrhau bod mynedfeydd ac allanfeydd mewn adeilad y mae mwy nag un drwydded ar ei gyfer, wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd, ac yn hawdd eu hadnabod. Wedyn ni fydd perygl methu â chadw'r safleoedd amrywiol ar wahân a chaniatáu i bobl 'grwydro' i'r safle hapchwarae'n ddiamcan. Dylai fod yn bosibl mynd i mewn i'r safle fel arfer felly, heb fynd drwy unrhyw rannau o'r adeilad sydd wedi'u trwyddedu ar gyfer alcohol neu hapchwarae.
- fod angen sicrhau bod cwsmeriaid yn gymwys i gymryd rhan yn y

gweithgaredd sydd wedi'i enwi ar y drwydded safle.

Bydd yr awdurdod hwn yn ystyried y ffactorau hyn a pob ffactor perthnasol arall wrth ddod i benderfyniad gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos.

(iii) Lleoliad – Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn dilyn canllawiau'r Comisiwn sy'n pennu na ellir ystyried materion yn ymwneud â galw gyda golwg ar leoliad y safle ond y gellir eu hystyried gyda golwg ar yr amcanion trwyddedu. Bydd yr awdurdod hwn yn canolbwyntio'n arbennig ar ddiogelu plant a phobl fregus rhag cael eu niweidio a'u hecsbloetio gan hapchwarae'n ogystal ag atal troseddu ac anhrefn.

(iv) Safleoedd sy'n "barod i'w defnyddio fel safleoedd hapchwarae"

Yn ôl y cyfarwyddiadau, ni ddylid trwyddedu safle ar gyfer hapchwarae, oni ellir argyhoeddi'r awdurdod trwyddedu y byddai pob gwaith adeiladu ac addasu wedi'i wneud, a'r safle'n addas i'r pwrpas yn rhesymol fuan.

Os yw'r safle'n aros i gael ei gwblhau neu'i addasu, neu os yw'r ymgeisydd yn dal i aros am ganiatâd i'w feddiannu, dylai wneud cais am ddatganiad dros dro yn lle trwydded.

Wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â thrwyddedu safle sy'n aros i gael ei gwblhau neu'i addasu, bydd yr awdurdod hwn yn trin pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun a hefyd yn ystyried p'un ai: -

- a ddylid caniatáu defnyddio'r safle ar gyfer hapchwarae ai peidio;
- a fo modd gosod amodau er mwyn darparu ar gyfer diffyg addasrwydd y safle ar hyn o bryd cyn i'r hapchwarae gyhwyn, ai peidio.

Sylwch y caiff yr awdurdod hwn benderfynu ei bod yn briodol caniatáu trwydded yn unol ag amodau, ond nid oes rhaid iddo ei chaniatáu.

(v) Dyblygu gwaith systemau rheoli eraill:

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ceisio osgoi dyblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan systemau statudol/rheoli eraill (gan gynnwys yr adran gynllunio), os oes modd yn y byd. Wrth ystyried cais, ni fydd yn pwysu a mesur p'un ai a fo caniatâd cynllunio neu ganiatâd o dan y rheoliadau adeiladu'n debyg o gael ei gynnig ai peidio. Serch hynny, byddai'n fodlon gwranddo ar unrhyw bryderon ynglŷn â methu â chydymffurfio ag amodau arfaethedig oherwydd cyfyngiadau cynllunio a fyddai gan ymgeisydd, a'u hystyried yn ofalus.

Wrth drafod cais am drwydded safle ar gyfer adeiladau parod, ni fydd yr awdurdod hwn yn cymryd i ystyriaeth p'un ai a fo'n rhaid i'r adeiladau hynny gydymffurfio â'r caniatâd cynllunio neu adeiladu angenrheidiol ai peidio. Ni fydd y perygl o dân na'r perygl i iechyd chwaith yn cael eu hystyried. Bydd materion felly'n cael eu trin o dan y rheolau cynllunio ac adeiladu perthnasol a rheolau eraill, ac nid oes hawl eu hystyried fel rhan o gais am drwydded safle.

(vi) Goruchwylwyr Drysau – Os yw'r awdurdod trwyddedu'n pryderu y gallai safle ddenu anhrefn neu gael ei dargedu gan rai sydd am geisio mynd iddo heb ganiatâd (e.e. plant a phobl ifanc), caiff ofyn am osod goruchwylwr wrth bob mynedfa. Bydd ganddo hawl hefyd i orfodi hynny yn ei amodau ar gyfer y safle. Wedi penderfynu bod angen cyflogi goruchwylwyr i warchod y drysau neu'r peiriannau, bydd angen hefyd ystyried p'un ai a ddylai fod ganddynt drwyddedau Awdurdod y Diwydiant Diogelu ai peidio.

(vii) Asesiadau Risg

a weithredir o 6 Ebrill 2016 ymlaen

Yn ôl côd cyfrifoldeb cymdeithasol y Comisiwn Hapchwarae sy'n rhan o'r Amodau a'r Codau Ymarfer Trwyddedu, y mae'n rhaid i weithredwr hapchwarae asesu'r perygl o fethu â chydymffurfio â'r amodau trwyddedu'n lleol ym mhob un o'i safleoedd hapchwarae, a llunio polisïau, trefnau a chamau rheoli er mwyn lleddfu ar y perygl hwnnw. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn gweithredu'n agored ac ar sail gadarn wrth ystyried ffyrdd o leihau'r peryglon sy'n ymwneud â hapchwarae, ac yn eu rhoi ar waith.

Bydd yr asesiadau lleol hyn o risg yn canolbwyntio'n benodol ar effaith andwyol bosibl safle hapchwarae ar un neu ragor o amodau trwyddedu o dan y Ddeddf. Byddant yn ymwneud â safle, ardal a chymuned benodol.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr ddeall yr ardal y maent yn gweithredu ynddi ynteu'n bwriadu gweithredu ynddi.

Bydd angen cynnal asesiadau risg:

- pan fydd amgylchiadau lleol yn newid yn sylweddol;
- pan fydd safle deiliad trwydded yn newid yn sylweddol a pherygl iddo fethu â lliniaru risgiau lleol o ganlyniad;
- wrth wneud cais am amrywio trwydded safle;
- wrth wneud cais am grant ar gyfer trwydded safle.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i bob safle gynnal asesiad risg a dilyn arfer da drwy gyflwyno'r asesiad pan ofynnir amdano.

Gall asesiad drafod:

- ardal y safle neu'r ardal a ddewiswyd ar gyfer y safle (e.e. y math o sefydliadau, manau agored a'r ffyrdd i mewn i'r safle y mae'r ardal yn eu cynnig)
- hyfforddi staff ar gyfer ymyrryd dros dro pan fydd cwsmer i'w weld yn methu â rheoli ei gamblo; y gallu i ymyrryd dros dro ac effaith dulliau o staffio'r safle ar hynny.

- lleoliad camerâu cylch teledu cyfyng gweithredol a dulliau monitro'r system;
- cynllun y safle fel y bo'n hawdd i staff weld y rhai sy'n ei ddefnyddio heb fod unrhyw beth yn eu rhwystro.
- nifer y staff ar y safle ar adegau penodol. Os mai dim ond un fydd yn gweithio weithiau, bydd angen cadarnhau'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r a monitro'r safle a'i ddefnyddwyr pan fydd yr unigolyn hwnnw i ffwrdd neu rywbeth yn tynnu ei sylw.
- trefniadau ar gyfer monitro a thrafod pobl dan oedran e.e. hyfforddi staff penodol, llunio taflenni, posterï ac ati;
- darparu arwyddion a dogfennau sy'n ymwneud â rheolau gemau, y gofal sydd ar gael i rai sy'n gaeth i hapchwarae a phob math o wybodaeth berthnasol arall.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

(viii) Amodau - Bydd unrhyw amodau a osodir ar drwyddedau'n gymesur ac:

- yn berthnasol i'r angen am addasu'r adeilad a gynigiwyd ar gyfer ei ddefnyddio fel cyfleustra hapchwarae;
- yn ymwneud yn uniongyrchol â'r safle dan sylw a'r math o drwydded y gofynnwyd amdani yn y cais;
- yn deg ac yn rhesymol wrth ystyried y math o safle a'i faint;
- yn rhesymol mewn pob ffordd arall.

Sylwch fod rhai amodau na chaiff yr awdurdod trwyddedu eu gosod ar drwyddedau sef:

- amod ar drwydded safle sy'n ei gwneud yn amhosibl i weithredwr gydymffurfio ag amodau trwyddedu sydd eisoes ar waith;
- amodau sy'n ymwneud â chategoriâu, rhifau neu ddulliau gweithredu peiriannau hapchwarae;
- amod sy'n gorfodi'r gweithredwr i ymaelodi â chlwb neu gorff penodol. O dan Ddeddf Hapchwarae 2005, nid oes rhaid mwyach ymaelodi â chlybiau casino neu fingo, ac y mae'r ddarpariaeth hon yn rhwystro'r amod hwnnw rhag cael ei adfer;
- amodau sy'n ymwneud ag arian betio, ffioedd, ennill neu wobrau.

Mae'r awdurdod trwyddedu'n deall bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod amodau gorfodol fel na fo angen rheoli pellach ar y mater. Go brin felly y gwêl yr awdurdod unrhyw angen am osod amodau unigol sy'n cyfyngu'n fwy fyth ar faterion a driniwyd eisoes o dan yr amodau gorfodol. Ni fydd yr awdurdod yn ystyried gosod amodau o gwbl oni bai fod tystiolaeth o broblemau rheoli eithriadol, a bydd disgwyl bod yr amodau trwyddedu ychwanegol yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.

Yn ogystal â'r amodau a ragosodwyd yn y rheolau, bydd unrhyw amodau y mae'r

awdurdod trwyddedu'n eu cysylltu wrth drwyddedau'n gymesur ac:-

- yn berthnasol i'r angen am addasu'r adeilad awgrymedig ar gyfer ei ddefnyddio fel cyfleustra hapchwarae;
- yn ymwneud yn uniongyrchol â'r safle a'r math o drwydded a geisir;
- yn rhesymol mewn pob ffordd arall.

Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd am gael gwybod sut y byddai'r ymgeisydd ei hun yn mynd ati i gyflawni'r amodau trwyddedu'n effeithiol.

2. Canolfannau Hapchwarae i Oedolion

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn hynod ymwybodol o'r angen am warchod plant a phobl fregus rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio o ganlyniad i hapchwarae. Er enghraifft, bydd yn gofyn i ymgeiswyr ei sicrhau eu bod wedi darparu'n ddigonol ar gyfer rhwystro rhai o dan 18 oed rhag dod i safleoedd.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n annog darpar ymgeiswyr i gysylltu â'r Awdurdod cyn gynted fyth ag y bo'n gyfleus er mwyn trafod ac archwilio'r trefniadau hyn cyn ymgeisio ac yn ystod unrhyw ymgynghoriadau.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gofyn i ymgeiswyr sicrhau'r Awdurdod eu bod am ddarparu'n ddigonol ar gyfer rhwystro rhai o dan 18 oed rhag mynd i fannau lle y mae peiriannau hapchwarae ar gyfer oedolion yn unig, er enghraifft. Gellir darparu drwy:

- a) osod system camerâu teledu cylch cyfyng;
- b) gadw golwg gyson ar fynedfeydd/allanfeydd;
- c) leoli'r fynedfa'n ofalus;
- d) wahanu rhannau o adeilad â pharwydydd.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

Pan fydd angen trefnu mynediad i Ganolfan Hapchwarae ar gyfer Oedolion a Chanolfan Adloniant Teuluol drwyddedig neu ddirwydded, a gwahanu safleoedd felly oddi wrth ei gilydd, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn am gadarnhau:

- a) y math o barwydydd sydd mewn golwg (h.y. sefydlog ynteu ansefydlog).
- b) y defnydd a fydd yn y parwydydd.
- c) na fydd unrhyw beiriannau'n cael eu defnyddio fel parwydydd.
- d) mai drwy ran ddirwydded o'r adeilad yn unig y bydd cwsmer yn cyrraedd pob man drwyddedig? Gallai'r fan honno fod yn gyntedd ond ni ddylai fod unrhyw gyfleusterau hapchwarae ynddi er bod peiriannau arian, diodydd ac ati yn ddigon derbyniol.

Nid yw'n dderbyniol cau mynedfa â rhaff neu bared symudol.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

3. Canolfannau Adloniant Teuluol (Trwyddedig)

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn hynod ymwybodol o'r angen am warchod plant a phobl fregus rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio o ganlyniad i hapchwarae. Er enghraifft, bydd yn gofyn i ymgeiswyr ei sicrhau eu bod wedi darparu'n ddigonol ar gyfer rhwystro rhai o dan 18 oed rhag dod i safleoedd.

Gellir darparu drwy:

- a) osod system camerâu teledu cylch cyfyng;
- b) gadw golwg gyson ar fynedfeydd/allanfeydd;
- c) leoli'r fynedfa'n ofalus;
- d) wahanu rhannau o adeilad â pharwydydd.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd am gadarnhau'r canlynol wrth ystyried y rhan o'r adeilad ar gyfer rhai dros 18 oed:

- a) y math o barwydydd (h.y. sefydlog ynteu ansefydlog).
- b) y defnydd a fydd yn y parwydydd.
- c) na fydd unrhyw beiriannau'n cael eu defnyddio fel parwydydd.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n annog darpar ymgeiswyr i gysylltu â'r Awdurdod cyn gynted fyth ag y bo'n gyfleus er mwyn trafod ac archwilio'r trefniadau hyn cyn ymgeisio ac yn ystod unrhyw ymgynghoriadau.

4. Safleoedd Bingo

Er y caiff plant ddod i safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer chwarae bingo, nid oes hawl iddynt hapchwarae ac eithrio ar beiriannau categori D. Pan fydd peiriannau categori C neu rai a rannwyd i gategori uwch na hynny ar safle sy'n agored i blant, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n sicrhau:

- a) y cedwir pob peiriant o'r fath mewn lle sydd wedi'i wahanu oddi wrth weddill yr adeilad â phared fel nad oes modd ei gyrraedd ac eithrio drwy fynedfa benodedig;
- b) mai oedolion yn unig a gaiff fynd i'r fan lle y mae'r peiriannau;
- c) bod staff yn gwylio pwy'n unig sy'n mynd at y peiriannau;
- d) bod y fan lle y mae'r peiriannau wedi'i threfnu fel y bo'n hawdd i staff neu'r gweithredwr neu ddeiliad y drwydded ei gwylio;

- e) bod arwyddion amlwg wrth y fynedfa i'r fan honno a'r tu fewn iddi sy'n dangos nad oes hawl i bobl o dan 18 oed ei defnyddio.

5. Traciau

Gŵyr yr Awdurdod Trwyddedu hwn y gall traciau ddod o dan un neu ragor o drwyddedau safle a bwrw bod pob trwydded yn ymdrin â darn penodol o drac. Traciau yn y cyd-destun hwn yw caeau rasio ceffylau, traciau rasio milgwn ac unrhyw safle neu ran o safle lle y cynhelir neu y bwriedir cynnal ras neu ddigwyddiad chwaraeon.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn rhoi sylw arbennig i'r effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (sef: gwarchod plant a phobl fregus rhag cael eu niweidio o ganlyniad i hapchwarae) a'r angen am ddarparu mynedfa ar wahân i bob math o safle ac am gadw plant rhag mynd i fannau hapchwarae nad oes hawl iddynt eu defnyddio.

6. Safleoedd Betio

Er nad oes hawl i blant fynd i safle sydd wedi'i drwyddedu ar gyfer betio, y mae hawl iddynt fynd i drac rasio.

O dan y Ddeddf, nid yw peiriant a gynlluniwyd neu a addaswyd ar gyfer betio ar ddigwyddiadau go iawn yn y dyfodol yn beiriant hapchwarae.

Caiff safleoedd hapchwarae gynnig peiriannau sy'n derbyn betiau ar gyfer digwyddiadau byw fel rasio ceffylau, fel na fo'n rhaid i gwsmeriaid osod eu betiau dros y cownter. Nid peiriannau hapchwarae yw'r peiriannau betio hyn. Awtomeiddio proses y gellir ei chynnal wyneb yn wyneb y maent, a chan hynny nid oes rhaid eu rheoli fel peiriannau hapchwarae.

O dan adran 181 o'r Ddeddf, caiff yr Awdurdod Trwyddedu gyfyngu ar nifer a natur y peiriannau ac amgylchiadau eu darparu drwy osod amod ar drwydded fetio.

Wrth bwysu a mesur p'un ai a ddylid gosod amod i gyfyngu ar nifer y peiriannau betio ar safle penodol ai peidio, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried maint y safle, nifer y cownteri ar gyfer gwneud trafodion wyneb yn wyneb, gallu staff i fonitro'r defnydd o'r peiriannau ac amryw o ffactorau eraill.

Ni chaiff yr Awdurdod Trwyddedu gyfyngu ar nifer y peiriannau hapchwarae ar safle hapchwarae nac ar y math o beiriannau. Mae hawl i bob safle osod hyd at 4 categori o beiriant o fath B, C neu D.

7. Casinos

Er nad yw'r Awdurdod Trwyddedu hwn wedi pasio cynnig i wahardd casinos o

dan adran 166 o Ddeddf Hapchwarae 2005, gŵyr fod ganddo'r grym i wneud hynny. Petai'n penderfynu pasio cynnig o'r fath yn y dyfodol, bydd yn diweddarau'r datganiad hwn o egwyddorion drwy gynnwys manylion am y cynnig hwnnw. Mater i'r Cyngor Llawn fydd penderfyniad felly.

8. Ffeiriau Teithiol

Pan fydd peiriannau categori D a / neu hapchwarae didrwydded lle y mae cyfle cyfartal am wobr yn cael eu cynnig mewn ffair deithiol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn gyfrifol am fonitro cydymffurfriad â'r gofynion statudol. O dan y gyfraith ni ddylai cyfleusterau hapchwarae fod yn fwy nag adloniant ategol mewn ffair. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn sicrhau bod yr ymgeisydd yn cyfateb i'r diffiniad statudol o ffair deithiol.

Sylwer mai fesul blwyddyn galendr y mae cyfrif y nifer mwyaf o ddiwrnodau (27) y caniateir i ffair aros ar ddarn o dir yn ôl deddf gwlad. Sylwer hefyd mai nifer y diwrnodau y bydd ffair ar y tir sydd dan sylw yma, boed yr un ffair ynteu ffeiriau gwahanol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hwn yn cydweithio ag awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau bod tir sy'n croesi ein ffiniau'n cael ei fonitro fel na fo perygl o dorri'r cyfyngiadau statudol.

9. Datganiadau Dros Dro

Caiff ymgeisydd wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am ddatganiad dros dro ar gyfer unrhyw safle y mae'n bwriadu:

- ei adeiladu;
- ei addasu;
- ei feddiannu'n gyfreithiol.

Mae cais am ddatganiad dros dro'n cael ei ystyried yn union yr un ffordd â chais am drwydded safle. Bydd disgwyl i ymgeisydd roi rhybudd o gais yn union fel petai'n ymgeisio am drwydded safle. Bydd hawl hefyd i awdurdodau cyfrifol a phobl gyfrannog wneud sylwadau, a bydd hawl apelio.

Yn wahanol i'r drefn ar gyfer trwydded safle, ni fydd angen trwydded weithredu oddi wrth y Comisiwn Hapchwarae ar ymgeisydd, na phrawf bod cais am drwydded felly wedi'i wneud (ac eithrio wrth drafod trac rasio). Ni ofynnir chwaith i ymgeisydd sicrhau bod ganddo hawl i feddiannu'r safle y mae ei gais am ddatganiad dros dro'n ei drafod.

10. Adolygiadau

Caiff pobl gyfrannog neu awdurdodau cyfrifol wneud cais am adolygu trwydded safle, ond mater i'r Awdurdod Trwyddedu fydd penderfynu p'un ai a ddylid cynnal yr arolwg ai peidio. Bydd perygl i'r Awdurdod Trwyddedu wrthod cais o'r fath (er nad o angenrheidrwydd) os yw'n ystyried bod y rhesymau dros ei wneud:

- yn amherthnasol un ai i ganllawiau/godau ymarfer y Comisiwn, y datganiad o egwyddorion neu'r amcanion trwyddedu. Enghreifftiau fyddai ceisiadau a wnaethpwyd oherwydd tagfeydd traffig neu'r galw am safle hapchwarae.
- yn wirion.
- yn annifyr.
- yn sicr o beidio ag ysgogi'r Awdurdod i ddirymu, atal, diddymu neu ddiwygio amodau trwydded neu atodi rhai newydd.
- yn cyfateb bron yn llwyr i rai a gynigiwyd mewn cais blaenorol a oedd yn trafod yr un safle. (Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cymryd yr amser ers y cais blaenorol i ystyriaeth).
- yn cyfateb bron yn llwyr i sylwadau a wnaethpwyd ar adeg cyflwyno cais blaenorol a oedd yn ymwneud â'r un safle. (Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n cymryd yr amser ers y cais blaenorol i ystyriaeth, ac ni fydd yn adolygu'r drwydded ar sail y dadleuon y bu'n eu hystyried wrth ei chaniatáu).

RHAN C

Trwyddedau / Hysbysiadau Defnydd dros dro ac Achlysurol'

1. Trwyddedau ar gyfer Peiriannau mewn Canolfannau Adloniant Didrwydded

Pan fydd gweithredwr safle didrwydded am ddarparu peiriannau hapchwarae, dylai wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu am drwydded safle. Sylwch y bydd disgwyl iddo ddangos ei fod am ddarparu'r holl safle neu ran ohono ar gyfer rhai sydd am ddefnyddio peiriannau hapchwarae.

Datganiad o Egwyddorion

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod polisiâu a threfnau yn eu lle ar gyfer diogelu plant rhag cael eu niweidio. Nid yw 'niweidio' yn y cyd-destun hwn yn golygu 'niweidio o ganlyniad i hapchwarae' yn unig, y mae ganddo ystyr ehangach ynglŷn â diogelu plant yn hytrach.

Bydd effeithiolrwydd polisiâu a threfnau o'r fath yn cael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod eu hunain, ond byddai'n addas cynnwys:

- camau priodol a hyfforddiant sy'n helpu staff i ymdopi pan fo amheuaeth bod plant a ddylai fod yn yr ysgol yn defnyddio'r safle;
- camau a hyfforddiant sy'n helpu staff i ymdopi â phlant ifanc iawn afreolus ar y safle;
- camau a hyfforddiant sy'n helpu staff i ymdopi â phlant sy'n achosi problemau penodol ar y safle neu yng nghyffiniau'r safle;
- trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r safle un ai gan staff neu drwy ddefnyddio system TCC.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn disgwyl i ymgeiswyr:

- ddangos eu bod yn gwybod faint yn union o arian y bydd hawl ei fentro a'i ennill mewn canolfannau adloniant teuluol didrwydded;
- ddangos bod eu staff wedi'u hyfforddi i wybod faint yn union o arian y bydd hawl ei fentro a'i ennill;
- gyflwyno tystysgrif datgelu cofnod troseddol oddi wrth gorff cydnabyddedig sydd wedi'i dyddio o fewn mis calendr i ddyddiad cyflwyno ei gais i'r Awdurdod Trwyddedu.

Os medr ymgeisydd brofi bod ganddo Drwydded Weithredu eisoes ac iddo gael ei archwilio'n fanwl gan y Comisiwn Hapchwarae o ganlyniad, yna ni fydd angen tystysgrif datgelu cofnod troseddol arno.

Er na chaiff yr Awdurdod Trwyddedu atodi amodau i'r math hwn o drwydded, bydd ganddo hawl i wrthod cais os nad yw'n teimlo ei fod yn ymdrin yn ddigonol â'r materion sy'n cael eu codi yn y 'Datganiad o Egwyddorion'.

Dim ond wrth wneud cais ar y dechrau y mae angen ymdrin â'r 'Datganiad o Egwyddorion'. Ni fydd angen ei drafod wrth adnewyddu cais oni bai fod newidiadau.

2. Trwyddedau ar gyfer safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer gwerthu alcohol sy'n cael hawlio dau beiriant fel mater o arfer, a thrwyddedau ar gyfer peiriannau hapchwarae

O dan y Ddeddf, caiff unrhyw safle a drwyddedwyd ar gyfer gwerthu alcohol (i'w yfed ar y safle), ddau beiriant hapchwarae (categori C neu D neu un o bob categori) fel mater o arfer. Y cyfan sydd angen ei wneud yw rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu a thalu'r ffi ofynnol. Os bydd angen mwy na 2 beiriant ar safle, bydd yn rhaid i'r gweithredwr wneud cais am drwydded ac i'r Awdurdod Trwyddedu benderfynu ar y cais hwnnw yng ngoleuni'r amcanion trwyddedu, Canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae yn Adran 25 o Ddeddf Hapchwarae 2005, ac "unrhyw fater y mae'n ei ystyried sy'n berthnasol."

Er y bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn penderfynu fesul achos pa faterion sy'n berthnasol, bydd materion felly fel arfer yn ymwneud â:

- yr angen am warchod plant a phobl fregus rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio drwy hapchwarae;
- yr angen am argyhoeddi'r awdurdod bod digon wedi'i wneud er mwyn rhwystro rhai o dan 18 oed rhag defnyddio peirannau a fwriadwyd ar gyfer oedolion yn unig.

Gellir argyhoeddi'r awdurdod bod digon wedi'i wneud drwy er enghraifft:

- osod y peiriannau ar gyfer oedolion fel y bo'n hawdd eu gweld o'r bar neu'n hawdd i'r staff a fydd yn eu monitro weld nad oes unrhyw un o dan 18 oed yn eu defnyddio;
- arddangos hysbysiadau ac arwyddion priodol.

3. Trwyddedau Hapchwarae am Wobrau

Hapchwarae pan na fydd maint na natur y wobr a gynnigir yn dibynnu nac ar nifer y chwaraewyr na'r arian a delir neu a godir wrth hapchwarae yw 'hapchwarae am wobrau'. Y gweithredwr, yn hytrach, fydd yn penderfynu ar y gwobrau cyn i'r chwarae gychwyn. Trwydded y bydd yr Awdurdod yn ei rhoi er mwyn caniatáu darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae am wobrau ar safle penodol yw 'trwydded hapchwarae am wobrau'.

Ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n cyhoeddi datganiad o egwyddorion ar wahân, ar gyfer ystyried pwy sy'n addas i ymgeisio am drwydded hapchwarae am wobrau, o dan baragraff 8 o Atodlen 14 y Ddeddf. Mae'n ei gynnwys yn y ddogfen bolisi hon, yn hytrach, er hwylustod cyfeirio.

Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i rai sy'n ymgeisio am drwyddedau hapchwarae am wobrau nodi'r mathau o hapchwarae y maent am eu cynnig, a hefyd ddangos:

- eu bod yn deall y cyfyngu ar fetiau a gwobrau y mae'r Rheoliadau'n eu gorfodi;
- bod y math o hapchwarae y maent am ei gynnig yn gyfreithlon;
- bod ganddynt bolisiâu eglur sy'n nodi'r union gamau y bydd yn rhaid eu cymryd er mwyn cadw plant rhag cael eu niweidio.

4. Trwyddedau Hapchwarae ar gyfer Clybiau a Pheiriannau mewn Clybiau

Caiff unrhyw Glwb Aelodau neu Sefydliad Glowyr (ond nid Clwb Masnachol) wneud cais am Drwydded Hapchwarae ar gyfer Clybiau. Mae'r drwydded hon yn caniatáu i safle ddarparu peiriannau hapchwarae, gemau cyfle cyfartal a gemau hap.

Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gwrthod cais oni bai:

- (a) fod yr ymgeisydd yn anghymwys i gael y math o drwydded y mae wedi ymgeisio amdani am nad yw'r safle'n ateb gofynion clwb aelodau neu sefydliad glowyr;
- (b) fod safle'r ymgeisydd yn cael ei ddefnyddio'n llwyr neu'n rhannol gan blant a/neu bobl ifanc;
- (c) i'r ymgeisydd gyflawni trosedd o dan y Ddeddf neu dorri rheolau ei drwydded wrth ddarparu cyfleusterau hapchwarae;
- (d) i'r ymgeisydd golli ei drwydded yn ddiweddar;
- (e) i'r Comisiwn neu'r heddlu fynegi ei wrthwynebiad.

Caiff yr Awdurdod Trwyddedu ganiatáu neu wrthod trwydded, ond ni chaiff ychwanegu amodau at y rhai statudol sydd eisoes yn rhan ohoni.

Mae cyfleustra prosesu cyflym ar gael o dan y Ddeddf hefyd ar gyfer safleoedd y mae ganddynt Dystysgrif Adeilad Clwb eisoes o dan Ddeddf Drwyddedu 2003. Ni fydd cyfle o dan yr amodau hyn i'r Comisiwn na'r heddlu fynegi gwrthwynebiad, ac ni chaniateir cymaint o resymau dros wrthod trwydded.

Caiff yr Awdurdod Trwyddedu wrthod cais am unrhyw un o'r rhesymau hyn:

- (a) am fod y clwb wedi'i sefydlu'n bennaf ar gyfer math o hapchwarae sy'n wahanol i'r hyn a ragnodwyd yn atodlen 12;
- (b) am fod yr ymgeisydd yn darparu cyfleusterau hapchwarae eraill yn ogystal â'r rhai rhagnodedig;
- (c) am fod trwydded hapchwarae ar gyfer clybiau neu beiriannau mewn clybiau a roddwyd i'r ymgeisydd yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf wedi'i diddymu."

5. Hysbysiadau Defnydd Dros Dro / Achlysurol

Ychydig iawn o hawl sydd gan yr awdurdod trwyddedu i weithredu ynglŷn â'r hysbysiadau hyn, ar wahân i sicrhau na ddefnyddir safle am fwy na'r 8 diwrnod statudol a ganiateir mewn blwyddyn galendr. Caiff bwysu a mesur y diffiniad o 'drac' serch hynny, ac ystyried p'un ai a fo gan ymgeisydd hawl i ddefnyddio hysbysiad ai peidio.

Mae hysbysiad defnydd dros dro'n caniatáu i adeilad didrwydded gael ei ddefnyddio i ddibenion hapchwarae pan fydd gweithredwr hapchwarae am gynnig cyfleusterau hapchwarae yn y fan honno dros dro.

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dilyn canllawiau sy'n rhoi enghreifftiau a'r math o safle sy'n addas ar gyfer gweithredu hysbysiad defnydd dros dro - h.y. gwesty, canolfan gynadledda, man cynnal chwaraeon ac ati.

Bydd yr awdurdod trwyddedu am gael gwybod a fydd hapchwarae rheolaidd yn cael ei ganiatáu mewn adeilad sydd yn ôl pob golwg yn un safle, o ganlyniad i weithredu'r hysbysiad defnydd dros dro. Bydd ffactorau fel perchnogaeth, meddiannaeth a rheolaeth dros safle'n cael eu hystyried wrth benderfynu ynglŷn â gwrthod caniatáu hysbysiad dros dro.

6. Loteriau Cymdeithasau Bach

Loteri Cymdeithas Fach yw loteri a sefydlwyd i ddibenion elusennol er mwyn cefnogi chwaraeon, athletau neu weithgaredd diwylliannol neu helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau felly, neu loteri anfasnachol o fath arall nad yw'n ymwneud ag ymelwa personol.

Ni ddylid gwerthu tocynnau loteri mewn unrhyw stryd lle y mae pont, heol, lôn, llwybr troed, isffordd, sgwâr, cwrt na thramwyfa (gan gynnwys tramwyfeydd mewn safleoedd amgaeedig fel canolfannau siopa). Serch hynny, caniateir gwerthu tocynnau o fwth yn y stryd, mewn siop ac o ddrws i ddrws.

7. Cofrestr

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gadw cofrestr gyhoeddus. Bydd hon ar gael i'r cyhoedd ei gweld ar unrhyw adeg resymol o'r dydd. Pan fydd cais am

unrhyw wybodaeth a gofnodwyd, bydd yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ddarparu copi o'r wybodaeth honno mewn fformat darllenadwy. Codir tâl am y copïau hyn. Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn codi ffi safonol o £25 y copi.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg mewn print bras neu ar ddisg sain. Os hoffech gael copi ohoni yn un o'r fformatiau hyn neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, dylech gysylltu â'r:

**Adran Drwyddedu
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU**

**Ffôn: 01446 709105
Ffacs: 01446 709808
E-bost: Licensing@valeofglamorgan.gov.uk
Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk**

DRAFT